***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1365 (Cy. 360)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Rhagfyr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *3 Rhagfyr 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983(**1**) ac adrannau 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**) a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**4**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1983 p. 40; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; a Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 44 ac Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(2)(a) gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 86(3)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Darparodd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 2004 i'w harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6), i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

# RHAN 1

## ENWI A CYCHWYN

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2021.

# RHAN 2

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (FFIOEDD A DYFARNIADAU) (CYMRU) 2007

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**5**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**3.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(i) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1) o'r diffiniad hwnnw;

(ii) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (a)(iii) ac ar ôl is-baragraff (a)(iv) mewnosoder—

"(v) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu"

(iii) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Ym mharagraff (1)(a)(v) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**6**)); neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

(**5**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181), a ddiwygiwyd gan O.S. 2008/1259 (Cy. 126); O.S. 2010/1142 (Cy. 101); O.S. 2011/1043; O.S. 2011/1978 (Cy. 218); O.S. 2013/1792 (Cy. 179); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/813 (Cy. 192).

(**6**) 2020 p. 1.

(b) ym mharagraff 2A(1)(a) a (b), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" ym mhob achos rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(c) ym mharagraff 3(1)(a)(iv)—

(i) ym mharagraff (bb), ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (3)";

(ii) ym mharagraff (cc), ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3)";

(iii) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iv), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

PENNOD 3

Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

**Diwygiadau i reoliadau 4 i 8**

**4.** Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,";

(b) ym mharagraff (1B), yn lle "paragraffau 8A a 9B" rhodder "paragraffau 8A, 9B a 9BA".

**5.** Yn rheoliad 5—

(a) ym mharagraffau (1)(b)(i) ac (c)(i), ym mhob achos ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "paragraffau 8A a 9B" rhodder "paragraffau 8A, 9B a 9BA".

**6.** Yn rheoliad 6 —

(a) ym mharagraffau (2)(a) a (3)(a), ym mhob achos ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,";

(b) ym mharagraff (5), yn lle "paragraffau 8A a 9B" rhodder "paragraffau 8A, 9B a 9BA".

**7.** Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraffau (2)(a) a (3)(a), ym mhob achos ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,";

(b) ym mharagraff (5), yn lle "paragraffau 8A a 9B" rhodder "paragraffau 8A, 9B a 9BA".

**8.** Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraffau (1)(a) a (2)(a), ym mhob achos ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "paragraffau 8A a 9B" rhodder "paragraffau 8A, 9B a 9BA".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**9.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 9B mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**9BA.**—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE; neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswyliad arferol hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswyliad arferol yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sy'n dilyn y cwrs yn y Deyrnas Unedig;

(ch) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad yw ei breswyliad arferol yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (ch) wedi bod yn llwyr neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn unol â rheoliad 2(4).

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "tiriogaethau tramor yr UE" yw Aruba; Ynysoedd Ffaröe; Polynesia Ffrengig; Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc; Mayotte; Kalaallit Nunaat (Greenland); Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten); St Barthélemy; St Pierre et Miquelon; Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol; a Wallis a Futuna."

# RHAN 3

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG UWCH (CYRSIAU CYMHWYSOL, PERSONAU CYMHWYSOL A DARPARIAETH ATODOL) (CYMRU) 2015

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**10.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**7**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

(**7**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/276 (Cy. 100); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4) ac O.S. 2021/481 (Cy. 148).

PENNOD 2

Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiadau i'r Atodlen**

**11.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(i) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1) o'r diffiniad hwnnw;

(ii) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (a)(ii), ac ar ôl is-baragraff (a)(iii) mewnosoder—

"(iv) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu";

(iii) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Ym mharagraff (1)(iv) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

(b) ym mharagraff 2A(1)(a) a (b), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" ym mhob achos rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(c) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (1)(a)(iii)(bb), ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3)";

(ii) yn is-baragraff (1)(a)(iii)(cc), ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3)";

(iii) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iii), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

## PENNOD 3

Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

**Diwygiad i reoliad 4**

**12.** Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (3A), yn lle "paragraff 8A neu 9B" rhodder "paragraff 8A, 9B neu 9BA";

(b) ym mharagraff (9)(a), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,".

**Diwygiad i'r Atodlen**

**13.** Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 9B mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**9BA.**—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswyliad arferol hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswyliad arferol yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE;

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad yw ei breswyliad arferol yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a gaiff ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn unol â pharagraff 1(3).

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "tiriogaethau tramor yr UE" yw Aruba; Ynysoedd Ffaröe; Polynesia Ffrengig; Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc; Mayotte; Kalaallit Nunaat (Greenland); Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten); St Barthélemy; St Pierre et Miquelon; Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol; a Wallis a Futuna."

# RHAN 4

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2017

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**14.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**8**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiadau i reoliadau 2, 4, 81 a 110**

**15.** Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(i) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1) o'r diffiniad;

(ii) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (a)(iii), ac ar ôl is-baragraff (a)(iv) mewnosoder—

"(v) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu";

(b) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Ym mharagraff (1)(a)(v) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

**16.** Yn rheoliad 4(10E)(a)(i), yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

**17.** Yn rheoliad 81(10E)(a)(i), yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

**18.** Yn rheoliad 110(12E)(a)(i), yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

**Diwygiad i Atodlen 1**

**19.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 2A—

(**8**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1094; O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/142 (Cy. 25); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/708 (Cy. 159); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/813 (Cy. 192).

(i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(ii) yn is-baragraff (1)(c), ar ôl "cwrs" mewnosoder "ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Ngweriniaeth Iwerddon am o leiaf ran o'r cyfnod hwnnw", hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd yr is-baragraff hwnnw a mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (1)(d);

(iii) ar ôl is-baragraff (1)(d) mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs presennol, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn y cwrs presennol."

(b) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (1)(a)(iv)(bb) ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (3)";

(ii) yn is-baragraff (1)(a)(iv)(cc) ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (3)";

(iii) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iv), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

(c) ym mharagraff 9C(1), hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (c), mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (d), ac ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs presennol, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol."

## PENNOD 3

### Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

**Diwygiadau i reoliadau 4, 23, 41, 81 a 110**

**20.** Yn rheoliad 4(2)(a), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,".

**21.** Yn rheoliad 23(2), ar ôl "9A," mewnosoder "9BA,".

**22.** Yn rheoliad 41(3), ar ôl "9A," mewnosoder "9BA,".

**23.** Yn rheoliad 81(2)(a), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,".

**24.** Yn rheoliad 110(3)(a)(i), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**25.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 9B mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**9BA.**—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir; neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio arferol hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio arferol yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd—

(i) yn ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru; neu

(ii) yn ymgymryd â chwrs rhan-amser dynodedig neu gwrs ôl-radd dynodedig yng Nghymru;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben derbyn addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel rhywun sy'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4)."

**Diwygiad i Atodlen 4**

**26.** Yn Atodlen 4 paragraff (3), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,".

# RHAN 5

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (BENTHYCIADAU AT RADD FEISTR ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2017

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**27.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(**9**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiadau i reoliadau 2 a 3**

**28.** Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(a) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1) o'r diffiniad hwnnw;

(b) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (a)(iii), ac ar ôl is-baragraff (a)(iv) mewnosoder—

"(v) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu"

(c) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Ym mharagraff (1)(a)(v) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

**29.** Yn rheoliad 3(10)(a)(i), yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**30.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 2A—

(i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(ii) yn is-baragraff (1)(c), ar ôl "cwrs" mewnosoder "ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Ngweriniaeth Iwerddon am o leiaf ran o'r cyfnod hwnnw", hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd yr is-baragraff hwnnw a mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (1)(d);

(iii) ar ôl is-baragraff (1)(d) mewnosoder—

(**9**) O.S. 2017/523 (Cy. 109), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169); O.S. 2018/277 (Cy. 53); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/895 (Cy. 161); O.S. 2019/1094; O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4) ac O.S. 2021/481 (Cy. 148).

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig."

(b) ym mharagraff 3(1)(a)(iv)—

(i) ym mharagraff (bb), ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (3)";

(ii) ym mharagraff (cc), ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (3)";

(iii) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iv), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.";

(c) ym mharagraff 9C(1), hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (c), mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (d), ac ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig."

## PENNOD 3

## Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

### Diwygiad i reoliad 3

**31.** Yn rheoliad 3(2)(a), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,".

### Diwygiad i Atodlen 1

**32.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 9B, mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**9BA.** Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir; neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4)."

# RHAN 6

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2018

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**33.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**10**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiad i reoliad 23**

**34.** Yn rheoliad 23E(a)(i), yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**35.** Yn Atodlen 1 paragraff 6(1), yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(a) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1);

(b) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (a)(iii), ac ar ôl is-baragraff (a)(iv) mewnosoder—

(**10**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/813 (Cy. 164); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1094; O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/142 (Cy. 25); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/708 (Cy. 159); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/813 (Cy. 192).

"(v) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu";

(c) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Ym mharagraff (1)(a)(v) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio yn ystod y cyfnod pontio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

**Diwygiadau i Atodlen 2**

**36.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 1—

(a) yn is-baragraff (2)(a)(iv)—

(i) ym mharagraff (bb), ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (5)";

(ii) yn is-baragraff (cc), ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (5)";

(b) yn is-baragraff (3)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(ii) ym mharagraff (c), ar ôl "cwrs" mewnosoder "ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Ngweriniaeth Iwerddon am o leiaf ran o'r cyfnod hwnnw", hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd y paragraff hwnnw a mewnosoder "ac" ar ddiwedd paragraff (d);

(iii) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs presennol, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn y cwrs presennol".

(c) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—

"(5) At ddibenion is-baragraff (2)(a)(iv), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

**37.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6C hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (c), mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (d), ac ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig."

**Diwygiad i Atodlen 4**

**38.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 13E(a)(i) yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

PENNOD 3

Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

**Diwygiadau i reoliadau 9 a 10**

**39.** Yn rheoliad 9(1)(a)(i), ar ôl "6B," mewnosoder "6BA,".

**40.** Yn rheoliad 10(1), yn eithriad 8 ar ôl "6B" mewnosoder ", 6BA".

**Diwygiadau i Atodlen 2**

**41.** Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 6B mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**6BA.**—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd—

(i) yn ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru, neu

(ii) yn ymgymryd â chwrs ôl-radd dynodedig yng Nghymru,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 9(2)."

**Diwygiadau i Atodlen 4**

**42.** Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 4(1)(a)(i), ar ôl "6B," mewnosoder "6BA,";

(b) ym mharagraff 5(1), yn eithriad 7 yn lle "5A neu 6B" rhodder "5A, 6B neu 6BA".

# RHAN 7

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (BENTHYCIADAU AT RADD DDOETHUROL ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2018

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**43.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**11**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiadau i reoliadau 2 a 3**

**44.** Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(a) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1) o'r diffiniad;

(b) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (a)(iii), ac ar ôl is-baragraff (a)(iv) mewnosoder—

"(v) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu"

(c) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Ym mharagraff (1)(a)(v) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

**45.** Yn rheoliad 3(11)(a)(i), yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

(**11**) O.S. 2018/656 (Cy. 124), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2019/1094; O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19) ac O.S. 2021/481 (Cy. 148).

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**46.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 2A—

(i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(ii) yn is-baragraff (1)(c), ar ôl "cwrs" mewnosoder "ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Ngweriniaeth Iwerddon am o leiaf ran o'r cyfnod hwnnw", hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd yr is-baragraff hwnnw a mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (1)(d);

(iii) ar ôl is-baragraff (1)(d) mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig."

(b) ym mharagraff 3(1)(a)(iv)—

(i) ym mharagraff (bb), ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3)";

(ii) ym mharagraff (cc), ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3)";

(iii) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iv), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.";

(c) ym mharagraff 10C(1), hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd paragraff (c), mewnosoder "ac" ar ddiwedd paragraff (d), ac ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig."

PENNOD 3

Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

**Diwygiadau i reoliad 3**

**47.** Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "10B," mewnosoder "10BA,";

(b) ym mharagraff (2B), yn lle "9A, 10B neu 10D" rhodder "9A, 10B, 10BA neu 10D".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**48.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 10B, mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**10BA.**—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir; neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4)."

# RHAN 8

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (GRADDAU MEISTR ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2019

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**49.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**12**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

(**12**) O.S. 2019/895 (Cy. 161), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1039 (Cy. 182); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/142 (Cy. 25); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/918 (Cy. 206); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/813 (Cy. 192).

PENNOD 2

Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiad i reoliad 12**

**50.** Yn rheoliad 12A(a)(i), yn lle "paragraff (a)(iii) neu (iv)" rhodder "paragraff (1)(a)(iii), (iv) neu (v)".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**51.** Yn Atodlen 1, paragraff 3(1), yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(a) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1) o'r diffiniad hwnnw;

(b) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd paragraff (a)(iii), ac ar ôl paragraff (a)(iv), mewnosoder—

"(v) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion, neu";

(c) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Yn is-baragraff (1)(a)(v) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

**Diwygiadau i Atodlen 2**

**52.** Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (2)(a)(iv)—

(aa) ym mharagraff (bb), ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (5)";

(bb) yn is-baragraff (cc), ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (5)";

(ii) yn is-baragraff (3)—

(aa) ym mharagraff (a), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(bb) ym mharagraff (c), ar ôl "cwrs" mewnosoder "ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Ngweriniaeth Iwerddon am o leiaf ran o'r cyfnod hwnnw", hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd y paragraff hwnnw a mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (1)(d);

(cc) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig."

(iii) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—

"(5) At ddibenion is-baragraff (2)(a)(iv), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

**53.** Ym mharagraff 8C, hepgorer yr "a" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (c), mewnosoder "ac" ar ddiwedd is-baragraff (d), ac ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

"(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig."

## PENNOD 3

## Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

### Diwygiadau i reoliadau 9 a 10

**54.** Yn rheoliad 9(1)(a)(i), ar ôl "8B," mewnosoder "8BA,".

**55.** Yn rheoliad 10(1), yn eithriad 12 ar ôl "8B" mewnosoder ", 8BA".

### Diwygiadau i Atodlen 2

**56.** Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 8B mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**8BA.**—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(5)."

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

1 Rhagfyr 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod effaith lawn yn cael ei rhoi i'r cytundeb ymadael â'r UE fel y mae'n ymwneud â hawliau'r rheini sy'n gwneud ceisiadau hwyr i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ac i aelodau o'r teulu a fydd yn ymuno â hwy yn y dyfodol ond nad ydynt eto wedi gwneud cais ac sy'n dal i fod o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny.

Mae'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â chymhwystra myfyrwyr i gael cymorth i fyfyrwyr Cymreig wedi eu diwygio fel nad yw personau (ac eithrio dinasyddion Gwyddelig penodol) sy'n dod i Gymru o Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel at ddibenion astudio yn gymwys i gael cymorth at ffioedd dysgu.

Mae diwygiadau wedi eu gwneud hefyd i Reoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 i wneud dinasyddion Gwyddelig sy'n byw yn yr AEE neu'r Swistir ar ddiwedd y cyfnod pontio yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr os ydynt yn dechrau cyrsiau yng Nghymru ar neu cyn 31 Rhagfyr 2027.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau cyfatebol i'r Rheoliadau a ganlyn—

Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;

Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;

Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017;

Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018;

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.